**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AR 21 CHWEFROR 2017 YN NHŶ HASTINGS.**

**Yn bresennol:** Mr. Owen Watkin (Cadeirydd); Mr. Ceri Stradling; Mr. David Powell; Mrs Julie May a Mr. Theodore Joloza.

**Swyddogion CFfDLC yn bresennol:** Mr. Steve Halsall (Prif Weithredwr); Mr Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr); Mr. Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mrs Rachel Williams (Rheolwr Cymorth Busnes); Mr. Ross Evans (Swyddog Arolygon); Mr. Daniel Mosley (Swyddog Arolygon) a Mr Farhan Khan (Swyddog Arolygon); Mrs Catherine Thomas (Cynorthwyydd Arolygon)

**Amser Dechrau:** 09:30
**Amser Gorffen:** 12:00

**Ymddiheuriadau:** Ni wnaed unrhyw ymddiheuriadau.

1. **Datganiadau o Fuddiant**

1.1. Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant.

**2. Briff y Cadeirydd**

2.1. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n briffio'r cyfarfod wrth i faterion gael eu hystyried ar yr agenda**.**

**3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 20 Rhagfyr 2016**

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Rhagfyr 2016 fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd.

**4. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 7 Chwefror 2017**

4.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Chwefror 2017 fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd, yn amodol ar nifer o fân newid.

4.2. **Cytunwyd** y byddai'r llythyr dyddiedig 23 Ionawr 2017 gan Gyngor Sir Gwynedd yn cyfeirio at ddarpariaeth y Gymraeg gan y Comisiwn yn cael ei drin a'i drafod fel cwyn.

**5. Materion yn Codi**

5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 03 Chwefror 2017 gan y Prif Weithredwr ar Faterion yn Codi.

5.2. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad yn gyffredinol gan nodi'r mater i'w drafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a nodwyd hefyd cynnydd wedi'i ddiweddaru ar y materion canlynol:

- (Mater 1) Cyfathrebu â Rhanddeiliaid Arolygon Etholiadol – mynychwyd cyfarfod gydag Un Llais Cymru, ac mae cyfarfod i'w drefnu gyda Chymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol. **Prif Weithredwr**

- (Mater 2) Staffio – Ar ôl cyfnod recriwtio arall ar gyfer y Swyddog Cymorth Busnes, ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau. Cysylltwyd â Llywodraeth Cymru i hysbysebu'r swydd yn fwy eang. Codwyd y mater bod pob ymgyrch recriwtio yn y dyfodol yn cynnwys y cam hwn fel arfer safonol. **Prif Weithredwr**
- (Mater 3) Porth ymgynghori – Mae dogfennau tendr wedi'u rhoi ar GwerthwchiGymru, yn disgwyl ymatebion. **Rheolwr Cymorth Busnes**
- (Mater 6) Gwobr Iechyd y Gweithle Bach – Gwneir gwaith paratoadol i wneud cais am y wobr hon erbyn diwedd mis Mawrth. **Rheolwr Cymorth Busnes**
- (Mater 7) Strategaeth TG – Bydd Cymwysterau Cymru yn cyflwyno astudiaeth ddichonoldeb i'w Bwrdd Rheoli a'u Prif Fwrdd erbyn 9 Mawrth; bydd yn cynnwys costau'r dyfodol, costau parhaus a chostau cyfalaf, ac ystyrir y rhain yn llawn yng nghyfarfod nesaf y Comisiwn. **Dirprwy Brif Weithredwr**
- (Mater 9) Cyfarfod Rhwng-comisiynau – Mae gwaith yn mynd rhagddo i gynnal y cyfarfod yn ddiweddarach yn 2017 yng Nghaerdydd. **Prif Weithredwr / Rheolwr Cymorth Busnes**

**6. Adroddiad Tâl Uwch Reolwyr**

6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 13 Chwefror 2017 gan y Rheolwr Cymorth Busnes.

6.2. **Derbyniwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn, yn amodol ar ychydig o fân newidiadau, a chaiff ei gytuno ymhlith y Comisiynwyr drwy e-bost yn ddiweddarach. Pan fydd wedi'i gwblhau, gall gwaith fynd yn ei flaen ar gyhoeddi'r ddogfen yn y flwyddyn ariannol nesaf.

**7. Diwygio Llywodraeth Leol: Papur Gwyn Cadarn ac Adnewyddedig**

7.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 03 Chwefror 2017 gan y Prif Weithredwr.

7.2. **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn a bydd yr argymhellion a wneir gan yr Ysgrifenyddiaeth a'r ymateb hwnnw yn cael eu drafftio a'u cyflwyno i gyfarfod mis Mawrth y Comisiwn i'w cymeradwyo.

**8. Gwasanaethau Cyfreithiol**

8.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 13 Chwefror 2017 gan y Rheolwr Cymorth Busnes.

8.2. **Cytunwyd** cynnwys yr adroddiad gan y Comisiwn a chytunwyd y bydd yr holl wasanaethau cyfreithiol yn y dyfodol yn cael eu prynu oddi ar y Fframwaith Caffael Cenedlaethol ar sail ad hoc.

**9. Gwasanaethau Iechyd Galwedigaethol**

9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 13 Chwefror 2017 gan y Rheolwr Cymorth Busnes.

9.2. **Cytunwyd** cynnwys yr adroddiad gan y Comisiwn a chytunwyd y bydd unrhyw

Wasanaethau Iechyd Galwedigaethol yn y dyfodol i'w prynu oddi ar y Fframwaith Caffael Cenedlaethol ar sail ad hoc, yn ôl yr angen.

## 10. Cynllun Trosiannol Safonau'r Gymraeg

10.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 13 Chwefror 2017 gan y Rheolwr Cymorth Busnes.

10.2. **Nododd** y Comisiwn yr Adroddiad a bod gwaith yn mynd rhagddo i gydymffurfio â'r holl safonau perthnasol. Bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i gyfarfod mis Mawrth i amlygu'r gwaith hyd yma fis nesaf.

## 11. Rheoli Risg

11.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 10 Chwefror 2017 gan y Rheolwr Cyllid.

11.2. Yn ychwanegol at y newidiadau a gytunwyd yng nghyfarfod y Comisiwn ym mis Rhagfyr 2016, cafodd nifer o newidiadau eu cynnig gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg hefyd yn ei gyfarfod diweddar. **Nodwyd** a **Chytunwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn, a nododd y byddai'r newidiadau a gynigiwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cael eu cyflwyno i gyfarfod y Comisiwn yn y dyfodol i'w hystyried gan yr aelodau.

## 12. Monitro'r Gyllideb

12.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 14 Chwefror 2017 gan y Rheolwr Cyllid.

12.2. **Cytunodd** y Comisiwn y trosglwyddiadau arfaethedig yng nghyllideb 2016/17 i ystyried y £40,000 o Gymorth Grant a ildiwyd yn ôl i Lywodraeth Cymru yn ddiweddar, a hefyd i gwmpasu rhai gorwariannau a thanwariannau amcangyfrifedig ychwanegol.

12.3. **Nododd** y Comisiwn y £75,585 o danwariant cyfredol ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Ionawr 2017, a'r amcangyfrif tanwariant o £70,955 gan CFfDLC a adroddwyd ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2016-17.

12.4. Cytunodd y Comisiwn i ildio £50,000 pellach i Lywodraeth Cymru, yn amodol ar wirio bod y gwariant amcangyfrifedig ar gyfer diwedd y flwyddyn yn cynnwys y £10,000 ar gyfer prynu'r adnodd MapInfo Software Maintenance a gymeradwywyd yn ddiweddar.

## 13. Adroddiad ar Gynnydd Arolygon

13.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 13 Chwefror 2017 gan y Dirprwy Brif Weithredwr yn ymwneud â chynnydd parhaus yr arolygon.

13.2. **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn a threfnodd i gynnal cyfarfod adborth gyda'r Ysgrifenyddiaeth er mwyn trafod gwelliannau i'r broses/prosesau Arolygon etholiadol.

## 14. Cylch Gorchwyl Cyfarfod Comisiwn CFfDLC

14.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 13 Chwefror 2017 gan y Rheolwr Cyllid.

14.2. Cytunwyd y cylch gorchwyl gan y Comisiwn yn amodol ar y diwygiad i baragraff 3.5, i gynnwys cyfrifoldeb y Comisiwn dros gymeradwyo trosglwyddiadau cyllidebol.

## 15. Calendr Digwyddiadau

15.1. Nodwyd y calendr gan y Comisiwn.

## 16. Unrhyw Fusnes Arall

16.1. **Nododd** y Comisiwn y Llythyr Cylch Gwaith a dderbyniwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, gan nodi manylion gweithgareddau'r Comisiwn yn 2017/18.

16.2. **Cytunodd** y Comisiwn i ymateb yn ffurfiol i'r Llythyr, gan ddiolch i Ysgrifennydd y Cabinet a chan gydnabod cyllideb y Comisiwn a ganiatawyd gan Lywodraeth Cymru.

16.3. Nodwyd y gallai Cynllun Gweithredol drafft gael ei baratoi yn awr, ar sail gofynion y Llythyr Cylch Gwaith, i'w ystyried yng Nghyfarfod y Comisiwn ym mis Mawrth.
**Gweithredu: Prif Weithredwr.**

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: Dydd Mawrth 28 Mawrth 2017**